Proffil Rôl Gwirfoddolwyr UCM Cymru
Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau

Prif fanylion

Teitl: Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau UCM Cymru
Cyfnod yn y Swydd: 1 flwyddyn
Math neu rôl: Gwirfoddolwr rhan amser
Swyddog presennol: Piers Wilkinson

Ynglŷn ag UCM Cymru
Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yw'r mudiad democrataidd mwyaf yng Nghymru sy'n cynrychioli dysgwyr mewn ystod o sefyllfaoedd, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg gymunedol i oedolion a phrentisiaethau.

Mae UCM Cymru yn bodoli er mwyn hyrwyddo, amddiffyn ac ymestyn hawliau myfyrwyr a datblygu a chefnogi undebau myfyrwyr cadarn. Rydym yn brwydro yn erbyn rhwystrau i addysg; rhoi grym i fyfyrwyr i lywio profiad dysgu o ansawdd uchel a'r byd o'u cwmpas; yn ogystal â chynorthwyo undebau myfyrwyr dylanwadol, democrataidd sydd ag adnoddau digonol.

Ynglŷn â'r Ymgyrch
Mae gan UCM Cymru bum ymgyrch ryddhad sy'n gweithio ar faterion sy'n effeithio ar grwpiau penodol o fyfyrwyr. Mae pob un o'r ymgyrchoedd hyn yn hunan-reolus, sy'n golygu eu bod yn cynnal eu cynadleddau eu hunain, yn creu eu polisi eu hunain ac yn ethol eu swyddogion a'u pwyllgorau. I ymgeisio am rôl ryddhad rhaid i chi hunan-ddiffinio i'r ymgyrch honno.

Mae ein pum ymgyrch ryddhad fel a ganlyn:

- Ymgyrch y Myfyrwyr Croenddu
- Ymgyrch LHDT+
- Ymgyrch Myfyrwyr ag Anableddau
- Ymgyrch yr Iaith Gymraeg
- Ymgyrch y Menywod

Ynglŷn â'r rôl hon
Mae Ymgyrch Myfyrwyr ag Anableddau UCM Cymru'n bodoli i gynrychioli, ymestyn ac amddiffyn hawliau myfyrwragedd yng Nghymru. Rydym yn ymgyrch awtonomaidd sy'n golygu bod myfyrwyr ag anableddau ledled Cymru yn llywio ein prosesau penderfynu.

Gydol y flwyddyn, rydym yn gweithio ar feysydd allweddol ar sail ein polisïau i greu effaith cadarnhaol ar fywydau myfyrwyr ag anableddau ledled y wlad. Rydym yn cyflawni hyn drwy weithio gydag undebau myfyrwyr i gynnal ymgyrchoedd, ymchwil, cyfleoedd i ddatblygu a hyfforddiant.

Chi, fel y Swyddog y Myfyrwyr ag Anableddau, fydd yn gyfrifol am arwain yr ymgyrch a gweithredu'r polisïau a osodir gan Gynhadledd y Myfyrwyr ag Anableddau.

Cyfrifoldebau penodol:
- Arwain gwaith Ymgyrch y Myfyrwyr ag Anableddau yng Nghymru, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Mynychu Cynhadledd Myfyrwyr ag Anableddau UCM Cymru 2018.
- Cadeirio Pwyllgor y Myfyrwyr ag Anableddau rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 30 Mehefin 2018.
- Mynychu **o leiaf 6 chyfarfod** Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru.
- Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Myfyrwyr Anabl UCM y DU fel sylwedydd

Beth allaf i ei ddisgwyl o'r rôl?
Mae bod yn wirfoddolwr yn brofiad gwerthfawr sy'n eich galluogi i wneud gwahaniaeth a chreu gwir effaith ar wella bywydau myfyrwyr. Nid yn unig fydd gwirfoddoli'n rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau newydd mewn dadansoddi a datblygu polisi, byddwch hefyd yn datblygu sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu drwy weithio gyda chyd-aelodau o'r pwyllgor.

Gallwch hefyd ddisgwyl y canlynol:

- Cael eich sefydlu yn eich rôl, Ymgyrch y Myfyrwyr ag Anableddau, a gwaith ehangach UCM.
- Derbyn cefnogaeth gan UCM Cymru, gyda chyfle ar gyfer datblygiad personol a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau drwy hyfforddiant mewnol.
- Ni fydd gwirfoddolwyr ar eu colled yn ariannol - caiff treuliau rhesymol, megis costau teithio a chynhaliaeth, eu talu gan UCM Cymru.
- Byddwch yn rhan o fudiad myfyrwyr ehangach, yn rhan o fudiad ymgyrchu cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn cynrychioli myfyrwyr o bob rhan o'r DU.

Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf?

Bydd swyddog ardderchog yn frwdfrydig am y cyfle i fod yn rhan o'r broses llunio penderfyniadau yn UCM, ac yn meddu ar ddiddordeb angerddol mewn deall y materion allweddol sy'n effeithio ar fyfyrwyr ar lefel genedlaethol. Hefyd, bydd y Swyddogion:

- Yn ymrwymo i amcanion Ymgyrch y Myfyrwyr ag Anableddau;
- Yn holi cwestiynau craff mewn trafodaethau;
- Yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da;
- Yn angerddol am lywio gwaith Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr tua'r dyfodol;
- Yn deall ac yn cynrychioli barn myfyrwyr ag anableddau yn genedlaethol.

Sut allaf i gyfranogi?

Os yw gwirfoddoli i fod yn Swyddog y Myfyrwyr ag Anableddau yn apelio atoch, cyfeiriwch yn ôl at y wefan am wybodaeth ynglŷn â sut i enwebu eich hun i sefyll yr etholiad.

Gwybodaeth Allweddol:

- Bydd cyfnod enwebu Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau UCM Cymru yn agor ddydd Mercher 3 Mai 2017 ac yn cau yn ystod Cynhadledd Myfyrwyr ag Anableddau UCM Cymru 2017.
- Bydd angen o leiaf 5 enwebiad unigol o 3 gwahanol Undeb Myfyrwyr arnoch.
- Os byddwch yn llwyddiannus, bydd eich cyfnod yn y rôl rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 30 Mehefin 2018.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r rôl, mae croeso i chi e-bostio conference@nus-wales.org.uk.